

ELIAS, JOHN (1774 - 1841), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Enw: John Elias
Dyddiad geni: 1774
Dyddiad marw: 1841
Priod: Ann Bulkeley (née Williams)
Plentyn: John Elias
Rhiant: Jane Jones
Rhiant: Elias Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John Edward Hughes

Nid oes sicrwydd am ddyddiad ei eni, ond bedyddiwyd ef 6 Mai 1774, mab Elias a Jane Jones, Brynllwyn (neu Crynllwyn) bach, Abererch, ger Pwllheli. Cafodd fagwraeth grefyddol gan ei daid, John Elias, a phan ddechreuodd bregethu mabwysiadodd enw ei daid. Derbyniwyd ef yn bregethwr Nadolig 1794 ac yn fuan dechreuodd ei glod fel pregethwr ymledu, a bu ar deithiau pregethu trwy siroedd y Gogledd, Lerpwl, Manchester, a'r De. Bu am gwrs byr o addysg yn ysgol [Evan Richardson](#), Caernarfon. Ar 22 Chwefror 1799 priododd ferch Richard Broadhead, Tre'r Gof, Cemmaes, Môn, a symudodd i Fôn i fyw, gan ymgartrefu yn Llanfechell ger Cemmaes, lle y cadwai ei briod fasnach. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn 1811. Bu iddynt bedwar o blant ond bu dau farw'n ieuanc. Bu ei briod farw 2 Ebrill 1828. Ymhen dwy flynedd priododd weddw [Syr John Bulkeley](#), Presaddfed, Bodedern; ei henw morwynol oedd Ann Williams o Aberffraw, merch o amgylchiadau cyffredin. Symudodd wedi hyn i'r Fron, Llangefni, ac yno y bu farw 8 Mehefin 1841. Claddwyd ef 15 Mehefin yn Llanfaes, ger Beaumaris.

Fel pregethwr, efe oedd y mwyaf poblogaidd a nerthol yn ei ddydd yng Nghymru. Meddai argyhoeddiadau dyfnion o wirioneddau'r efengyl, cydnabyddiaeth drylwyr â'r Ysgrythurau (heb rithyn o amheuaeth am eu hanffaeledigrwydd llythrennol), a gallu rhesymegol cryf i'w defnyddio at bwrpas ei bregethu. Meddai hefyd ddychymyg byw, gallu areithyddol digyffelyb, wyneb cryf, a llais nerthol. Wrth bregethu trethai holl adnoddau ei feddwl a'i gorff, gan wneud defnydd effeithiol o'i freichiau ac yn arbennig ei fys blaenaf; ac oherwydd gwres a thanbeidrwydd ei ysbryd a'i ddifrifwch mawr, câi ddylanwad rhyfeddol ar ei wrandawyr. Oherwydd ei boblogrwydd fel pregethwr a'i ddoniau areithyddol dihafal, daeth yn arweinydd amlwg yng nghyfundeb y Methodistiaid Calфинаidd, ac am ei fod yn r o ewyllys gref, meddwl annhyblyg, a natur dra-arglwyddiaethol, ni ellid yn hawdd ei wrthwynebu. Coleddai syniadau Uchel-Galfinaidd am Etholedigaeth ac lawn Crist. Ar un adeg dysgai'r syniad o lawn Cyd-bwys, sef mai dros yr etholedigion yn unig y bu Crist farw, a gwrthwynebai rai fel [Thomas Jones](#) (Dinbych), a [John Jones](#) (Talsarn) a goleddai syniadau ehangach.

Bu iddo ran amlwg yn ffurfiad y Gyffes Ffydd (1823) a'r weithred gyfansoddiadol a gorfforai bob eiddo (megis capelau) yn eiddo y cyfundeb, ac ar ei anogaeth ef clymwyd yr hawl hon wrth gred yn llythyren fanwl y Gyffes. Fel gwleidydd hefyd, ceidwadol ydoedd, a gwrthwynebai bob mudiad yng nghyfeiriad rhyddid, e.e. mesur rhyddfrefniad y Pabyddion a'r Mesur

Diwygiadol (Reform Bill) 1832. Galwai gefnogwyr y Mesurau hyn yn 'wrthryfelwyr,' tra y galwai rhai o'i wrthwynebwyr yntau 'Y Pab o Fôn.' Hyd ddiwedd ei oes, edrychai ar y syniad o 'iaith y werin yn llais Duw' fel arwydd o anffyddiaeth. Fel diwygiwr cymdeithasol, dygai fawr sêl dros ddirwest a phurdeb, a thrwy ei bregethu nerthol bu'n foddion i roi i lawr lawer o arferion isel a llygredig megis gwylmabsantau, ffeiriau cyflogi ar y Sul, etc. Bu'n gefnogwr eiddgar i Gymdeithas y Beiblau, gan deithio llawer i sefydlu canghennau ohoni, ac i Gymdeithas Genhadol Llundain.

Er ei geidwadaeth, ceir ef yn niwedd ei oes yn galw am well addysg i'r weinidogaeth, a chefnogodd waith [Lewis Edwards](#) yn agor Coleg y Bala i'r pwrpas hwn (1837).

Awdur

Y Parchedig John Edward Hughes, (1879 - 1959)

Ffynonellau

W. Pritchard, *John Elias a'i Oes* (Caernarfon 1911)

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868)

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfrol 1, 1789-1843* (Caerdydd 1933)

Darllen Pellach

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)*, ii, 410-485

Edward Morgan, *A memoir of the Rev. John Elias, of Anglesea* (Liverpool 1844)

Edward Morgan, *Valuable letters, essays, and other papers of the late Reverend John Elias, of Anglesea* (Carnarvon 1847)

Erthygl Wikipedia: [John Elias](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [21696246](#)

Wikidata: [Q6231573](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

